**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 21 AWST 2018 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mrs Catherine Thomas (Cynorthwyydd Arolygon); Mrs Caroline Redmond (Cynorthwyydd Swyddfa)

**Amser dechrau:** 08:30
**Amser gorffen:** 14:40

**Ymddiheuriadau:** Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon)

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 2. Brîff y Cadeirydd

2.1. Crybwyllodd y Cadeirydd, gan fod y Cynulliad Cenedlaethol ar doriad, nid oedd unrhyw faterion i adrodd arnynt.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2018

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2018 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn codi

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig Awst 2018, gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd, gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd cyfredol ar y mater canlynol:

- **(Mater 5)** Buddsoddwyr Mewn Pobl – Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad i'r Comisiwn ar ganlyniad yr ailasesiad. Bu'r Comisiwn yn llwyddiannus yn ei ailasesiad. Caiff yr Adroddiad ei ddosbarthu wedi iddo gael ei dderbyn, a chaiff

yr Asesydd ei wahodd i un o gyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol i gyflwyno'r Adroddiad.

- **Adolygiad Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi (JEGS)** – Crybwyllwyd y byddai'r adolygiad yn dechrau maes o law.

## 5. Arolwg Etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr

5.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 11 Awst 2018, gan y Swyddog Arolygon.

5.2. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Cwm Llynfi, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Caerau, Llangynwyd, Dwyrain Maesteg a Gorllewin Maesteg

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n defnyddio'r cynllun a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Mae'n defnyddio ffiniau yn yr ardal sy'n hawdd eu hadnabod.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.
- Mae'n lleihau nifer yr aelodau ar gyfer yr ardal.

5.3. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer Cwm Garw, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Betws, Garw Isaf, Castellnewydd Uwch a Garw Uchaf

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cael ei gefnogi gan Gyngor Cymuned Garw.
- Mae'n sicrhau cynrychiolaeth gan un aelod ar draws yr ardal, yn ôl y flaenoriaeth.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.
- Mae'n lleihau nifer yr aelodau ar gyfer yr ardal.

5.4. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Cwm Ogwr, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Melin Ifan Du, Nant-y-Moel, Bro Ogwr

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n defnyddio'r trefniadau presennol.
- Wardiau un-aelod ar draws yr ardal â lefelau priodol o amrywiant.

- Caiff ei gefnogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

5.5. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer Llangrallo Uchaf a Phencoed, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Bryncethin, Bryncoch, Dwyrain Pencoed, Gorllewin Pencoed a Sarn

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n darparu wardiau un-aelod, gan mwyaf, ar draws yr ardal.
- Mae'n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol ar draws yr ardal.

5.6. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer Coety Uchaf, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Coety Uchaf

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n defnyddio'r gymuned gyfan.
- Mae'n sicrhau lefel briodol o gydraddoldeb etholiadol.

5.7. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer Bracla, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf, Canol Dwyrain Bracla, Canol Gorllewin Bracla a Gorllewin Bracla

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n defnyddio'r cynllun a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Mae'n defnyddio ffiniau yn yr ardal sy'n hawdd eu hadnabod.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.

5.8. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer Tref Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Canol Pen-y-bont ar Ogwr a Hengastell

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.
- Mae'n lleihau nifer yr aelodau ar gyfer yr ardal.
- Mae'n sicrhau bod canol tref Pen-y-bont ar Ogwr i gyd mewn un ward etholiadol.

5.9. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer Trelales a Chefn Glas, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr, a Chefn Glas

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n defnyddio'r trefniadau etholiadol presennol, ac yn cynyddu nifer yr aelodau ar gyfer ward Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.

5.10. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Porthcawl, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Drenewydd, Notais, Dwyrain Porthcawl, Gorllewin Porthcawl a Rest Bay

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n defnyddio'r cynllun a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Tref Porthcawl.
- Mae'n defnyddio ffiniau yn yr ardal sy'n hawdd eu hadnabod.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.
- Mae'n sicrhau wardiau un-aelod, gan mwyaf, ar draws yr ardal.

5.11. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Corneli, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Corneli a'r Pîl, Mynyddcynffig a Chefn

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol.

5.12. **Cytunodd** y Comisiwn ar enwau'r wardiau etholiadol arfaethedig i'w cynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Drafft, a chaiff y rhain eu hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer sylwadau. Caiff drafft o'r Adroddiad Cynigion Drafft ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn.

5.13. **Cytunodd** y Comisiwn ar y trefniadau ôl-ddilynol i'r Cynghorau Tref a Chymuned dan sylw.

## 6. Arolwg Cymunedol Sir Fynwy

6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 08 Awst 2018, gan y Swyddog Arolygon ac a gyflwynwyd gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

6.2. Ystyriodd y Comisiwn Dref y Fenni, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar y cynnig i newid enwau ward cymunedol Castell i Pen-y-fâl, ac Y Priordy i Y Parc, a gynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Tref, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.3. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Caer-went, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, a ddiwygiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.4. Ystyriodd y Comisiwn Dref Caldicot, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Tref, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, a ddiwygiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.5. Ystyriodd y Comisiwn Dref Cas-gwent, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar y cynnig i newid enw ward gymunedol St Mary's i Castell Cas-gwent.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Tref, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth (Opsiwn B), gan eu bod yn sicrhau lefelau priodol o gydraddoldeb etholiadol.

6.6. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Crucornau, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.

- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.7. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Devauden, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar y cynnig i newid enw ward gymunedol Llanfihangel Wolvesnewton i Llanfihangel Tor-y-Mynydd, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.8. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Goetre Fawr, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar y cynnig i newid enw ward gymunedol Mamhilad i Goetre Wharf, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.9. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Grysmwnt, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, a ddiwygiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.10. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Gwehelog Fawr, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy, sy'n diddymu Cymuned Gwehelog Fawr.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.11. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Llanarth, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, a ddiwygiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.12. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Llanbadog, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.13. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Llanelli, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.14. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Llan-ffwyst Fawr, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar y cynnig i newid enw ward gymunedol Llanwenarth Tu Draw i Gofilon, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, a ddiwygiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.15. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Llangatwg Feibion Afel, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.

- Ar y cynnig i newid enw cymuned Llangatwg Feibion Afel i Ynysgynwraidd, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.16. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Llan-gwm, a **chytunodd**:

- Ar y cynnig i newid enw'r gymuned o Llangwm i Llantrisant Fawr ar ôl uno'r ddwy gymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.

6.17. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Llangybi Fawr, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.

6.18. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Llanhenwg, a **chytunodd**:

- Ar y cynnig i newid enw'r gymuned o Llanhenwg i Llangybi Fawr ar ôl uno'r ddwy gymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.

6.19. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Llanofer, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar y cynnig i newid enw'r gymuned o Llanofer i Gobion Fawr, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.20. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Llandeilo Gresynni, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar y cynnig i newid enw'r gymuned o Llandeilo Gresynni i Castell-gwyn, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar y cynnig i newid enw ward gymuned Llandeilo Gresynni i Castell-gwyn, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.

- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, a ddiwygiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.21. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Llandeilo Bertholau, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, a ddiwygiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.22. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Llantrisant Fawr, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.23. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Magwyr gyda Gwndy, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar y cynnig i newid enwau wardiau cymunedol Denny, Mill, Salisbury a The Elms i Dwyrain Magwyr, Gorllewin Magwyr a Gwndy, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, er mwyn sicrhau wardiau etholiadol effeithiol.

6.24. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Matharn, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Peidio â gweithredu'r newidiad i'r ffin fewnol rhwng wardiau Mounton a Phwllmeurig, a gynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy, gan nad yw'n cefnogi'r nod o lywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.

- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.25. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Llanfihangel Troddi, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.26. Ystyriodd y Comisiwn Dref Trefynwy, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar y cynnig i newid enw ward gymunedol Dixton gydag Osbaston i Osbaston, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Tref, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth (Opsiwn B), a ddiwygiwyd gan Gyngor Sir Fynwy, er mwyn sicrhau lefelau priodol o amrywiant.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth (Opsiwn B – ward Drybridge â dau aelod), er mwyn sicrhau lefelau priodol o amrywiant.

6.27. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Porth Sgiwed, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.28. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Rhaglan, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth (Opsiwn B), a ddiwygiwyd gan Gyngor Sir Fynwy, er mwyn sicrhau lefelau priodol o amrywiant.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.29. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Rogiet, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.30. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Drenewydd Gelli-farch, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar y cynnig i newid enwau'r wardiau cymunedol i Coed-yr-Iarll a'r Eglwys Newydd ar y Cefn, a Drenewydd Gelli-farch a Mynydd-bach.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.31. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned St Arvans, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.32. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Tyndyrn, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar y cynnig i newid enw'r gymuned o Tyndyrn i Dyffryn Gwy, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.33. Ystyriodd y Comisiwn Gymuned Tryleg Unedig, a **chytunodd**:

- Ar ffiniau allanol y gymuned, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.

- Ar ffiniau mewnol y wardiau cymunedol, fel y'i cynigiwyd gan Gyngor Sir Fynwy.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y Cyngor Cymuned, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, a ddiwygiwyd gan Gyngor Sir Fynwy, er mwyn sicrhau lefelau priodol o amrywiant.
- Ar drefniadau ôl-ddilynol y wardiau etholiadol, fel y cynigiwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

6.34. Nawr, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn drafftio Adroddiad Argymhellion Terfynol, a fydd yn cael ei gyflwyno yn un o gyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol.

6.35. Mynegodd y Comisiwn ei werthfawrogiad o waith Ross Evans, Daniel Mosely a Tom Jenkins wrth baratoi'r Adroddiad.

## 7. Arolwg Etholiadol Torfaen

7.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 13 Awst 2018, gan y Swyddog Arolygon.

7.2. **Cytunodd** y Comisiwn ag Opsiwn 4, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Abersychan, Blaenafon, Coed Efa, Croesyceiliog, Fairwater, Greenmeadow, Llanfrechfa a Phonthir, Llantarnam, Llanyrafon, New Inn, Panteg, Pontnewydd, Pontnewynydd a Snatchwood, Pont-y-pŵl Fawr, St Dials, Trefddyn a Phen-y-garn, Two Locks, a Chwmbrân Uchaf.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel y cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Mae'n sicrhau y caiff dymuniadau Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl ac eraill eu parchu mewn perthynas â ward etholiadol Pont-y-pŵl Fawr.
- Mae'n sicrhau bod y ffigurau etholiadol rhagamcanol yn briodol.
- Mae'n parchu'r cysylltiadau cymunedol a chymdeithasol ar draws y Fwrdeistref Sirol.

7.3. Caiff unrhyw enwau ychwanegol eu hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer sylwadau.

7.4. Caiff drafft o'r Adroddiad Argymhellion Terfynol, yn seiliedig ar y cynllun cytûn, ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn i'w gymeradwyo.

7.5. Diolchwyd i Daniel Mosely am lunio'r Adroddiad.

## 8. Arolwg Etholiadol Gwynedd

8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 9 Awst 2018, gan y Swyddog Arolygon.

8.2. **Nododd** y Comisiwn yr Adroddiad, a'i **dderbyn** yn amodol ar rai mân newidiadau. Byddai Rhagair diwygiedig yn cael ei baratoi, yn dilyn awgrymiadau a wnaed yn y cyfarfod, i'w **gytuno** â'r Comisiynwyr drwy'r e-bost.

8.3. **Nododd** y Comisiwn y cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg, a **chytunodd** â'r argymhelliad ar gyfer ward 'Abersoch gyda Llanengan'.

8.4. Bydd yr Adroddiad yn destun gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd cyn ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2018.

## 9. Adeiladau

9.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 13 Awst 2018, gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

9.2. Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i'r Comisiwn fod Cyfreithwyr Hugh James yn drafftio'r brydles newydd, ac y byddai diweddariad yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf.

## 10. Ymestyn yr Etholfraint

10.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 14 Awst 2018, gan y Dirprwy Brif Weithredwr, yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru i alluogi unigolion 16 oed i wneud cais i'w cynnwys ar y gofrestr etholwyr at ddibenion pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac etholiadau llywodraeth leol.

10.2. **Cytunodd** y Comisiwn y byddai'n barod i gynnal dadansoddiad o gynnwys rhai 16-17 oed a rhai 10-17 yn y rhaglen arolygon bresennol, cyn belled ag y cydnabyddir y gallai'r gwaith effeithio ar allu presennol yr Ysgrifenyddiaeth, a'r angen am gyngor ystadegol arbenigol. **Cytunwyd** ymhellach y byddai'n ceisio cyngor arbenigol i helpu â'r dadansoddiad ystadegol.

## 11. Panel Arolygu Annibynnol ar gyfer Cymunedau Cymuned a Thref yng Nghymru

11.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 14 Awst 2018, gan y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr.

11.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

**12. Cofnodion Is-bwyllgor y Gweithlu – 27 Mawrth 2018**

12.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 14 Awst 2018, gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

12.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

**13. Cofnodion Is-bwyllgor y Gweithlu – 24 Gorffennaf 2018**

13.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 14 Awst 2018, gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

13.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

**14. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risgiau**

14.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 10 Awst 2018, gan y Rheolwr Cyllid. **Cytunodd** y Comisiwn fod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, ac nad oes angen ei newid ar hyn o bryd.

14.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

**15. Adroddiad ar y Gyllideb**

15.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 13 Awst 2018, gan y Rheolwr Cyllid. Nododd a **chytunodd** y Comisiwn ar y newidiadau arfaethedig i ddyraniadau categorïau'r gyllideb. Nodwyd y tanwariant amcangyfrifedig presennol ar gyfer y flwyddyn, ac ystyriwyd y byddai'r cytundeb arfaethedig ar gostau prydles newydd yr adeilad yn rhoi darlun mwy eglur o wariant yn y dyfodol.

15.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

**16. Adroddiad ar y Prosiect Gweddnewid TGCh**

16.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 14 Awst 2018, gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

16.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

**17. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg – 25 Gorffennaf 2018**

17.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 10 Awst 2018, gan y Rheolwr Cyllid. Nododd y Comisiwn fod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol archwiliedig a chyfrifon blynyddol 2017-18 y Comisiwn, a fabwysiadwyd ac a lofnodwyd gan y Pwyllgor.

17.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a chofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2018.

**18. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon**

18.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 14 Awst 2018, gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

18.2. **Cytunodd** y Comisiwn â'r newidiadau i'r rhaglen arolygu.

18.3. Nododd y Comisiwn, oherwydd amgylchiadau esgusodol, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi gofyn am estyniad i'r cyfnod ymgynghori cychwynnol hyd at 9 Tachwedd 2018. **Cytunodd** y Comisiwn â'r cais hwn, ar yr amod y byddai unrhyw gynrychiolaethau neu wrthwynebiadau a wneir yn uniongyrchol i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn ymateb y Cyngor i'r Comisiwn.

**19. Cefnogi a Hybu'r Gymraeg: Ymchwiliad i'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ac yn ehangach**

19.1. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 14 Awst 2018, gan y Dirprwy Brif Weithredwr a'r ymateb drafft a baratowyd gan y Prif Weithredwr.

19.2. **Cytunwyd** ar yr ymateb, a gaiff ei anfon at Bwyllgor y Cynulliad erbyn 14 Medi 2018.

**20. Calendr Digwyddiadau**

20.1. Nododd y Comisiwn y calendr.

20.2. **Cytunwyd** y byddai Theo Joloza yn mynychu'r cyfarfod rhyng-gomisiynol ym mis Tachwedd 2018 ar ran David Powell.

**21. Unrhyw fater arall**

21.1. Nid oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 25 Medi 2018**